YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Wythnos 15: Symud Mlaen 2

## #addewidagobaith #hopeandpromise



**O Dduw,**

**Diolch am y bobl sy'n ein dysgu. Diolch am ( athro neu athrawon) gofalwch amdanynt a gobeithio eu bod yn gwybod pa mor arbennig ydynt a pha mor bwysig yw eu gwaith i ni. Diolch am bopeth maent wedi ddysgu i mi, diolch am ( meddyliwch am bethau rydych wedi gwerthfawrogi dysgu amdanynt fel natur, gwyddoniaeth neu hanes Cymru, bod yn feddylgar neu amyneddgar) Cynorthwywch fi i fynd a'r gwersi yma gyda fi i'r dyfodol.**

**Amen**

Croeso i rhan 2 o'n adnodd Cofio'r Enfys

Allwch chi gofio enw'r stori bum yn darllen yr wythnos diwethaf? Ia "Y ffordd i Emaus". Gadawon dau o ddilynwyr yr Iesu ar y ffordd i le o'r enw Emaus. Teimlodd y ddau yn drist gan fod yr Iesu wedi marw, ond teimlant yn gyffrous hefyd achos roedd sôn ôd fod yr Iesu wedi ymddangos i rhai pobl.

Bu i ni ddyfalu eu sgwrs wrth iddynt gerdded yn cofio'r amseroedd anhygoel yng nghwmni'r Iesu, a'r rhyfeddodau oedd wedi ddysgu iddynt. Bum yn meddwl am ein atgofion arbennig ninnau o'n amser yn yr ysgol ac yn diolch i Dduw amdanynt. Gawsoch chi gyfle i gychwyn creu bocs atgofion?



Ond nôl a ni at y stori! Wrth i'r ddau gerdded daeth dyn i gyd gerdded, gofynnodd iddynt am yr Iesu ac am y gwersi oedd wedi dysgu iddynt. Gofynnodd am y sibrydion bod yr Iesu yn fyw a dywedodd rhai sylwadau diddorol am yr Iesu. Bu'r tri yn cyd gerdded a trafod am amser maith ond fel iddi ddechrau nosi cyrhaeddant Emaus. Penderfynodd y criw bach fynd i gael bwyd a parhau a'u sgwrs.
Yn amlwg roedd dilynwyr yr Iesu wedi dysgu llawer ganddo. Roedd yr Iesu yn athro arbennig a gynorthwywyd llawer o bobl i ddysgu a deall am gariad a gobaith a sut i fyw bywyd i wneud y byd yn well. Dysgeidiaeth mor dda mae'n cael ei ddysgu i ni heddiw.



Efallai yr hoffwch chi gymryd chydig o amser i feddwl am eich athrawon ysgol. Pobl arbennig sy'n gofalu amdanoch ac sydd eisiau'r gorau i chi. Maent yn gweithio'n galed i'ch addysgu ac i wneud yn siwr fod yr ysgol yn le hapus a diogel i chi dyfu ynddi.

Meddyliwch am eich athrawon. Efallai gallwch feddwl am y cwestiynau yma wrth fyfyrio.

1) Beth wnesi fwynhau dysgu fwyaf y flwyddyn yma neu dros fy amser yn yr ysgol gynradd?
2) Am beth wyf fi yn ddiolchgar i fy athrawon?
3) Os y gallwn i ddiolch i fy athrawon beth fyswni yn ei ddweud?



**Syniad gweithgaredd 1**
Ysgrifennwch lythyr, tynnwch lun neu meddwl am ffyrdd eraill gallwch ddiolch eich athrawon. Weithiau mae'n hawdd anghofio dweud diolch ond mae'n golygu cymaint i bobl pan ydych yn cymryd yr amser i ddangos eich gwerthfawrogiad. Allwch chi ysgrifennu nodyn byr neu tynnu llun i'w roi i'ch athrawon?

**Syniad gweithgaredd 2**
Gyrrwch atgof at unrhywun yn eich ysgol. Oes rhywbeth sydd wedi aros yn eich côf sy'n gysylltiedig ag unigolyn? Gall fod yn gyd-addoli, stori gan y pennaeth ddaru wneud i chi feddwl yn wahanol am rhywbeth? Gall fod allan ar y cae chwarae dros ginio pan roedd un o'r antis cinio wedi bod yn garedig, rhywbeth sydd dal yn eich côf heddiw. Efallai hoffwch ysgrifennu eich atgof fel hyn.......

Dwi'n cofio pan........
Gwnaethoch i mi deimlo fel........
Helpodd fi i.......

Dwi'n siwr fod llawer o bobl yn eich ysgol eisiau diolch i chi hefyd. Diolch i chi am wrando, diolch am ofalu, diolch am wneud eich gorau.
Dwi'n siwr fod gan yr athrawon a'ch ffrindiau lwyth o atgofion melys o chithau hefyd. Efallai eich bod wedi helpu newid y ffordd mae person yn meddwl neu wedi gwneud person trist deimlo'n hapus eto.

Efallai hoffwch ddweud y weddi yma gan lenwi y gwagle gyda eich teimladau a meddyliau.

Follow us on twitter @churchinwales

@diostasaphedu @pobldewi @esgobaethbangor @llandaffed @swanbreced @apmdaly